MANIFFESTO RHIENI DROS ADDYSG GYMRAEG
AR GYFER ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2016

Iaith gwlad, iaith addysg.

Cyswllt:
Ceri Owen,
Cyfarwyddwr Datblygu RhAG,
Tŷ Cymru, Greenwood Close,
Parc Busnes Porth Caerdydd,
Caerdydd CF23 8RD
02920 739 207 / 07912175403
ceri@rhag.net

rhag
rhieni dros addysg gymraeg
parents for Welsh medium education

CYNYDDU MOMENTWM A SYMBYLU TWF

Rhagymadrodd

Mudiad yw RhAG sy'n cynrychioli rhieni disgyblion mewn ysgolion Cymraeg a rhai sydd am weld twf ysgolion Cymraeg ac addysg Gymraeg.. Caiff RhAG ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Mae RhAG yn credu, fel y gwna Llywodraeth Cymru, mai ysgolion Cymraeg yw'r model ysgol gorau o ran rhoi sgiliau llawn mewn dwy iaith i bob disgybl.

Roedd cyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Strategaeth newydd ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn ddogfen o bwys. Am y tro cyntaf, gwelwyd Llywodraeth Cymru'n cymryd yr awenau yn y gwaith o gynllunio twf Addysg Gymraeg.

Twf addysg Gymraeg

Dros y 60 mlynedd diwethaf, mae addysg Gymraeg wedi cynyddu ym mhob rhan o Gymru, ac mae gweithgaredd RhAG wedi cyfrannu'n sylweddol at hynny. Erbyn hyn mae tua 22% o blant ysgolion cynradd Cymru'n derbyn addysg Gymraeg. Mae tua 17% o ddisgyblion ysgolion uwchradd Cymru'n derbyn addysg Gymraeg. Ond yn y sector addysg bellach mae'r ganran o dan 5%, ac mae hyn yn debyg mewn addysg uwch.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar gyfer 2015 a 2020, gyda 30% o ddisgyblion 7 oed yn mynychu ysgolion Cymraeg erbyn 2020, nid yw'n debygol y caiff y targedau hyn eu cyrraedd.

Rydym yn cynnig targed realistig o 50% o ddisgyblion 7 oed mewn addysg Gymraeg erbyn 2030.

Mae angen sefydlu trefn sydd nid yn unig yn diwallu'r galw ond yn symbylu twf pellach, a rhoi cyfarwyddyd clir i awdurdodau lleol ar sut i weithredu hynny.

Bil addysg Gymraeg

Mae RhAG o'r farn nad yw trefn bresennol hyrwyddo a chefnogi addysg Gymraeg yn ddigonol. Mae awdurdodau lleol yn osgoi eu cyfrifoldeb, ac mae nifer o ysgolion hefyd yn osgoi cyfrifoldeb. Er bod rhaid i Awdurdodau Lleol gyflwyno Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, nid oes gan y cynlluniau hyn ddannedd go iawn. Mae sawl Awdurdod Lleol yn tanseilio nodau ac amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth

I sicrhau bod cynnydd pendant a chyflym yn digwydd, mae RhAG yn galw am lunio Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg yn ystod tymor nesaf y Cynulliad er mwyn cryfhau'r seilwaith deddfwriaethol presennol.

Ar hyn o bryd mae'r holl ddeddfwriaeth berthnasol yn ddarniog, annigonol neu wedi'i ymgorffori mewn deddfau eraill. Mewn sawl agwedd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth yn bodoli o gwbl. Mae RhAG yn argymell llunio Bil Addysg Cyfrwng Cymraeg a fyddai'n fodd o gwmpasu rhychwant anghenion y maes trwy dynnu ynghyd yr holl edeifion cyfreithiol presennol a chynnig eglurder cyfreithiol diamwys yn y dyfodol.

Cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg

Dylai'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) sicrhau mecanwaith ar gyfer cynllunio cadarn, rhagweithiol ar sail statudol. Mae'r Cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno gan y Siroedd ac yna sydd



wedi'u cymeradwyo gan y Llywodraeth, yn annigonol ac yn ddi-uchelgais. Yn gyffredinol mae diffyg targedau pendant a mesuradwy.

Mae RhAG wedi rhagamcanu y bydd angen rhwng 80 a 100 ffrwd ychwanegol (30 o blant yr un) er mwyn cyrraedd y nod. Ar hyn o bryd mae'r Cynlluniau'n syrthio'n brin iawn o'r targed hwnnw, ac felly o darged Llywodraeth Cymru.

Y galw am addysg Gymraeg

Mae mesur y galw am addysg Gymraeg mewn siroedd llai dwys eu Cymraeg bellach yn statudol. Nid yw pob sir wedi mesur y galw. Mae'r mesuriadau o'r galw wedi dangos bod rhwng 25% a tua 45% o rieni ym mhob sir lle cafodd y galw ei fesur am gael addysg Gymraeg i'w plant. Mae hyn ddwy neu dair gwaith yn uwch na'r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn y siroedd hyn.

Mae angen i bob sir mewn ardaloedd llai dwys eu Cymraeg fesur y galw am addysg Gymraeg a gweithredu'n unol â'r canlyniadau.

Dechrau'n Deg

Mae gwaith ymchwil[1] gan RhAG wedi dangos nad yw'r ddarpariaeth yn dod yn agos at y canrannau presennol sy'n derbyn addysg Gymraeg. Mae hyn yn milwrio yn erbyn ehangu Addysg Gymraeg yn hanner siroedd Cymru.

Mae bwriad i ehangu rhaglen Dechrau'n Deg dros y blynyddoedd nesaf trwy fuddsoddiad ariannol

sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Dyma faes allweddol sy'n gorgyffwrdd â chylch gorchwyl sawl Gweinidog, gan gynnwys Trechu Tlodi, Gofal Plant ac Addysg. O ganlyniad mae angen arweiniad a chyfarwyddyd polisi cenedlaethol o'r canol mewn perthynas â statws y Gymraeg o fewn y rhaglen ac ymrwymiad gan y Llywodraeth i sicrhau fod y Gweinidogion perthnasol yn gweithredu'n unol â hynny.

Darpariaeth meithrin a chyn-statudol

Un gwendid mawr ar hyn o bryd yw'r ddarpariaeth yn y sector meithrin a'r dilyniant rhwng y sector meithrin a'r cynradd. Pan mae nifer derbyn ysgol yn llai na maint y meithrin yna mae plant yn cael eu colli o'r ysgol.

Anhawster mawr sy'n wynebu plant mewn dosbarthiadau meithrin Cymraeg yw nad oes cludiant statudol ar gael, fel sydd i ysgolion cynradd. Mae disgyblion Cymraeg yn byw'n bellach o'u hysgol na disgyblion Saesneg, ar gyfartaledd, ond nid oes unrhyw gymorth i blant oed meithrin deithio i'w dosbarthiadau meithrin. Mae angen cynnig cludiant statudol i blant oed meithrin.

Gyda phwyslais cynyddol ar addysg 3 oed mae angen ystyried y sector fel un statudol-wirfoddol a phriodoli rhinweddau'r sector statudol iddo.

Twf ysgolion cynradd

Mae RhAG yn argymell dwy ffordd gyflym o sefydlu ysgolion Cymraeg newydd:

Sefydlu dosbarthiadau cychwynnol a fydd maes o law'n tyfu'n ysgolion annibynnol. Mae hyn yn hepgor yr angen am ganfod adeilad newydd ar unwaith, a fyddai'n wag am y blynyddoedd cyntaf. Mae Caerdydd wedi gweithredu'r dull hwn yn llwyddiannus.

Mewn ardaloedd trefol, dylai'r Awdurdod Addysg Lleol weithredu yn ôl y ganran sydd am gael addysg Gymraeg trwy greu cynlluniau i drosi ysgolion Saesneg yn ysgolion Cymraeg. Gallai hyn ddigwydd dros gyfnod, neu trwy adleoli.

Ysgolion Uwchradd

Mae rhyw 25 o ysgolion uwchradd Cymraeg penodedig mewn ardaloedd llai dwys eu Cymraeg, a rhyw 35 arall yn gweithredu fel ysgolion Cymraeg neu ddwyieithog.

Er bod yn agos at 22% o ddisgyblion cynradd Cymraeg yn dysgu'r Gymraeg yn iaith gyntaf, 17% sy'n gwneud hynny yn y sector uwchradd. Mae angen atal y patrwm o 'lithriad ieithyddol' sy'n digwydd yn bennaf ymysg disgyblion ysgolion ardaloedd traddodiadol Gymraeg.

Mae angen i Lywodraeth Cymru a chyrff arholi sicrhau bod ysgolion Cymru'n cadw at god ymarfer pendant i gael dilyniant ieithyddol effeithiol rhwng y sector cynradd ac uwchradd.

Mae angen sicrhau dilyniant cyfrwng hefyd, gan fod astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn atgyfnerthu sgiliau ieithyddol.

---

[1] http://www.rhag.net/stori.php?iaith=cym&id=144

Addysg 16+

Mae dosbarthiadau 16+ ysgolion Cymraeg wedi'u derbyn fel yr unig sefydliadau addysg 16+ sy'n cynnig addysg cyfrwng Cymraeg yn effeithiol. I sicrhau llwyddiant dosbarthiadau 16+ mewn ysgolion Cymraeg, mae angen parhau cludiant hwylus iddynt, ar yr un telerau â chludiant i'r sector -16.

Lle mae siroedd yn mynd i'r afael â'r Agenda Trawsnewid mae'n hollbwysig nad yw dosbarthiadau 16+ ysgolion Cymraeg yn cael eu gwanhau.

Dilyniant ieithyddol

Nid yw Cynlluniau Datblygu Addysg Gymraeg siroedd Cymru'n rhoi sylw digonol i ddilyniant iaith rhwng gwahanol sectorau addysg.

Mae hyd at draean a rhagor o ddisgyblion rhai ardaloedd wedi bod yn troi o iaith gyntaf i ail iaith. Er bod y Llywodraeth wedi gosod targedau yn 2010, nid yw'r targedau wedi cael eu cyrraedd. Cynyddodd y ganran o 16% i 17% dros bedair blynedd. Mae targed o 23% erbyn 2020.

Yr ardaloedd gwannaf yng Nghymru o ran dilyniant yw Castell-nedd Port Talbot, Caerfyrddin a Chonwy, gyda cholledion amlwg hefyd yng Ngwynedd, Môn a rhai siroedd eraill.

Ysgolion Saesneg

Mae adroddiad Sioned Davies (2012) wedi nodi bod ysgolion Saesneg ar y cyfan yn aneffeithiol wrth ddysgu'r Gymraeg. Bydd dysgu'r Gymraeg ar un continwwm, gan ddatblygu o'r sector cynradd i'r uwchradd a hefyd defnyddio'r Gymraeg ar gyfer gweithgareddau, yn fodd o gyflwyno'r Gymraeg yn effeithiol fel iaith fyw yn yr ysgolion hyn.

Anghenion dysgu ychwanegol

Mae'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ddiffygiol mewn sawl rhan o Gymru, ac mewn rhai meysydd yn fwy nag eraill. Mae angen gwneud awdit cyffredinol o'r ddarpariaeth fesul sir, a sicrhau bod cydweithio rhyngsirol yn cael ei hwyluso i roi tegwch i ddisgyblion sydd eisoes yn dioddef o anableddau neu anawsterau dysgu.

Mae angen sefydlu canolfannau rhagoriaeth ym mhob sir er mwyn atgyfnerthu arbenigedd a rhannu arfer dda.

Mae'n rhaid sicrhau bod darpariaethau atodol cyfrwng Cymraeg , e.e. iaith a lleferydd, seiciatreg, cymorth dyslecsia ac ati, yn statudol.

Ceir o hyd enghreifftiau o 'arbenigwyr' yn cynghori rhieni i symud eu plant o'r sector cyfrwng Cymraeg i'r sector Saesneg gan ddatgan y byddai'r plentyn 'ar ei ennill' o wneud hynny. Mae hyn yn ddull o beidio darparu gwasanaeth Cymraeg, ac mae'n gwrthod hawl disgybl o gael addysg yn ei ddewis iaith.

Addysg a datblygu trefol

Pan gaiff addysg ei hystyried yng nghyd-destun cynllunio ystadau tai newydd, mae angen i awdurdodau lleol roi ystyriaethau ieithyddol yn ganolog yn y cynlluniau gan sicrhau bod sefydlu ysgolion Cymraeg yn rhan o'r cynlluniau hyn. Pan fydd y sector preifat yn ariannu datblygiadau o'r fath, mae angen manteisio ar hyn o safbwynt addysg Gymraeg. Mae angen cyfarwyddyd polisi cenedlaethol clir a diamwys ar hyn.

Cynyddu pwyntiau mynediad i addysg Gymraeg

Mae RhAG am sicrhau bod addysg Gymraeg ar gael i bawb sy'n ei dymuno, ac felly am weld darpariaeth benodol i hwyrddyfodiaid ym mhob sir. Gallai'r ddarpariaeth gael ei chynnal mewn cydweithrediad â darpariaeth dysgu Cymraeg i rieni.

Mae angen i bob sir gynnig canolfan i hwyrddyfodiaid, naill ai'n ganolfan annibynnol, neu'n gysylltiedig ag ysgol.

Cydweithio traws-sirol a dalgylchoedd

Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru lunio canllawiau sy'n sicrhau bod cydweithio parod yn digwydd rhwng awdurdodau addysg lleol wrth iddynt gynnig darpariaeth addysg Gymraeg.

Gydag addysg 16+ mae angen canllawiau clir sy'n sicrhau bod darpariaeth gyflawn Gymraeg ar gael wrth i ysgolion cyfun Cymraeg gydweithio yn eu siroedd eu hunain neu'n draws-sirol.

Cludiant

Mae angen i awdurdodau lleol weithredu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 gan sicrhau bod cludiant yn hyrwyddo addysg Gymraeg.

Mae pellter ysgolion Cymraeg o gartrefi disgyblion yn fwy na phellter ysgolion Saesneg o gartrefi ar gyfartaledd. Dylai fod dyletswydd ar AALlau i ddarparu cludiant i wneud iawn am y gwahaniaeth hwn.

Mae ymchwil RhAG yn dangos fod sicrwydd trafnidiaeth cyn bwysiced os nad yn bwysicach na chael cludiant am ddim. Mae ymchwil RhAG yn awgrymu y gallai'r sector Cymraeg 16+ chwalu oni bai bod cludiant ar gael yn ôl amodau'r sector -16.

Mae rhai siroedd yn codi cannoedd o bunnoedd ar ddisgyblion sy'n teithio i gael Addysg Gymraeg 16+.

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn nodi bod dyletswydd ar awdurdodau addysg i ddarparu cludiant mewn modd sy'n hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae angen eglurder ar hyn ac ar y camau y gall Llywodraeth y Cynulliad eu cymryd os na fydd AALL yn gweithredu'n unol â hyn.

Galwn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cludiant am ddim i addysg cyfrwng Cymraeg ôl 16 ar gael i ddisgyblion ledled Cymru.

Marchnata Addysg Gymraeg

Prin iawn yw'r marchnata sy'n digwydd i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae rhieni'n aml heb gael gwybodaeth am y dosbarthiadau meithrin Cymraeg a'r ysgolion Cymraeg yn eu hardal. Mae hyn yn wir yn aml hyd yn oed pan gaiff ysgol newydd ei sefydlu neu pan gaiff dosbarthiadau eu cychwyn.

Dylid cynnwys datblygiadau megis: creu a darparu pecyn gwybodaeth i deuluoedd newydd sy'n symud i Gymru; ehangu system Siartr Iaith Ysgolion Gwynedd Iedled y wlad; dyfeisio rhaglen arbennig er mwyn hyrwyddo manteision addysg Gymraeg ymysg cymunedau lleiafrifoedd ethnig Cymru.

Diffiniadau ieithyddol ysgolion

Er bod diffiniadau ieithyddol wedi'u cynnig yn genedlaethol am wahanol sefydliadau addysgol, nid yw awdurdodau addysg lleol yn aml yn rhoi gwybodaeth glir i rieni am yr ysgolion yn eu gofal.

Rydym yn annog cymeradwyo'r argymhelliad yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth y Cynulliad sy'n nodi y dylid darparu Addysg Gymraeg o fewn sefydliadau lle y mae amgylchedd, yn hytrach nag o fewn ysgolion dwyieithog lle digwydd llawer o'r rhyngweithio rhwng staff a disgyblion yn Saesneg.

Dylid adolygu ar fyrder y ddogfen 'Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (dogfen wybodaeth rhif 023/2007, Hydref 2007). O safbwynt yr uwchradd, dylid cyfuno categori 1 a 2A a chreu categori newydd ar gyfer ysgolion 2B, C a Ch; sefydlu trefn cenedlaethol mwy tryloyw er mwyn cyfrifo nifer y disgyblion ym mhob dosbarth, sy'n cael eu arholi ym mhob pwnc a'r drefn ariannu sy'n perthyn i hynny; sefydlu trefn a fyddai'n atal glastwreiddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg e.e. israddio categori ieithyddol ysgol.

Cefnogi rhieni

Mae angen i rieni gael cefnogaeth lawn wrth iddynt anfon plant i ysgolion Cymraeg. Mae angen cynnig rhaglen ddwys o ddysgu a gloywi Cymraeg i rieni a darpar rieni, gan flaenoriaethu rhieni sy'n awyddus i droi iaith y cartref i'r Gymraeg. Mae lle amlwg i gydweithio rhwng Cymraeg i Oedolion ac ysgolion. Dylid cyflogi rhwydwaith o swyddogion maes pwrpasol i siarad wyneb yn wyneb gyda rhieni ac i weithredu fel dolen gyswllt rhwng y cartref, Cylchoedd Meithrin a'r ysgolion.

Er bod rhieni'n derbyn pecyn TWF, mae angen gwaith dilynol sy'n cyfleu i rieni negeseuon am fywyd a diwylliant Cymraeg. Dylai'r gefnogaeth gynnwys gwybodaeth am chwaraeon Cymraeg, caneuon, a sut i siarad Cymraeg â phlant. Mae angen sefydlu rhaglen gyfatebol i TWF yn yr ardaloedd mwy Seisnigedig.

Staffio a chynllunio'r gweithlu

Mae angen datblygu cyrsiau hyfforddi cyfrwng Cymraeg i athrawon, a chynnig cyrsiau gloywi dwys i athrawon sy'n fodlon trosi i addysg Gymraeg, eto trwy gynlluniau rhyddhau o'r gwaith a thrwy ddatblygu'r Cynllun Sabothol.

Mae Mudiad Meithrin yn wynebu problemau staffio, yn enwedig yn yr ardaloedd Seisnigedig. I oresgyn hyn mae angen cynnig hyfforddiant iaith digonol yn ogystal â chynnig tâl ac amodau gwell. Mae angen sicrhau

bod yr Endid Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion yn cynnig darpariaeth ddigonol i roi hyfforddiant iaith i athrawon, gan gynnwys dysgu'r iaith a datblygu sgiliau iaith.

Arbenigedd staff o fewn adrannau'r llywodraeth

Mae angen prif-ffrydio'r Gymraeg ar draws adrannau'r Llywodraeth, a chynyddu ymwybyddiaeth ac arbenigedd staff ym maes addysg Gymraeg i sicrhau cydweithio cydlynus. Mae gormod o bolisïau'r llywodraeth wedi ymddangos ym maes addysg heb gyfeiriad at addysg Gymraeg, neu gydag addysg Gymraeg yn cael ystyriaeth ymylol. Mae'n glir bod diffyg capasiti yn Uned y Gymraeg mewn Addysg.

Rhaid sicrhau bod arweiniad clir yn dod o du'r Gweinidog Addysg parthed addysg Gymraeg a bod yr AALL hwythau'n glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau hwy yn y maes.

Addysg Bellach, Uwch a Hyfforddiant

Wrth groesawu datblygiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r twf yn nifer y rhai sy'n dilyn rhan sylweddol o'u hastudiaethau trwy'r Gymraeg, mae angen cydnabod bod dilyniant ieithyddol yn dal yn drychinebus rhwng y sector addysg uwchradd ac addysg bellach ac uwch.

Mae angen ehangu cyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, fel bod dilyniant iaith rhwng y sector uwchradd ac addysg bellach ac uwch.

Rôl y Gweinidog Addysg

Y Gweinidog Addysg ar hyn o bryd sydd i wneud penderfyniadau ar gau ysgolion neu ganiatáu agor ysgolion. Mae'r Gweinidog Addysg hefyd yn arwain ym maes addysg yng Nghymru. Ceir adegau pan mae'r Gweinidog Addysg yn tynnu'n ôl o drafodaeth ar ddatblygu ysgolion Cymraeg, yn sgil y rôl ddeuol hon, yn hytrach na rhoi arweiniad cadarn i awdurdodau addysg lleol.

Mae angen sefydlu Pwyllgor o Arbenigwyr gyda chefndir mewn cynllunio ieithyddol ac ymchwil o safbwynt dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yng Nghymru ac yn rhyngwladol i gynghori'r Gweinidog.